# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones ac R Meirion Jones. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid<br>Rheolwr Adnoddau Dynol (CW)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol fel cofnod cywir:-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth, 2021.
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth, 2021.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

**4 PENODIADAU STAFF**

**Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd**

Cyflwynwyd 3 ymgeisydd oddi ar y rhestr fer ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Penodiadau fel ymgeiswyr posibl ar gyfer y swydd Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd. Tynnodd 1 ymgeisydd ei gais yn ôl cyn y cyfweliad.

Rhoddodd yr ymgeiswyr gyflwyniad, fe wnaethant ateb cwestiynau ar y cyflwyniad ac yna buont ateb cyfres o gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor. Rhoddwyd adborth gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid ar y broses asesu a oedd yn cynnwys prawf

seicometrig a chyfweliad proffesiynol a gynhaliwyd gan y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.

Yn dilyn y cyfweliad ffurfiol, **PENDERFYNODD y Pwyllgor Penodiadau benodi Mr Christian Branch i'r swydd uchod.**

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**